LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBL IFANC

ENW: Laura Evans

BRO: Pumsaint, Sir Gâr

RHOI CYNGOR PROFFESIYNOL I FFERMWYR

Wedi astudio mentergarwch gwledig a rheoli tir ym mhrifysgol Harper Adams, mae Laura Evans bellach yn syrfëwr siartredig gwledig gyda Rural Advisor Cyf.

"Rwy'n cynghori ffermwyr a pherchnogion tir ar bob math o faterion – o brydlesi i brisiadau a chynllunio," eglura Laura. "Rwyf hefyd wedi gweld cynnydd mewn prisiau ffermydd oherwydd newidiadau i reolau treth."

Er bod swyddfa'r cwmni ym Mhumsaint, mae Laura yn gweithio tipyn o'i chartref yng Ngheredigion, gan wasanaethu cleientiaid lleol. "Mae gallu gweithio o gefn gwlad yn bwysig i mi – dyna lle mae fy nghalon."

SUT MAE LLWYDDO'N LLEOL WEDI HELPU?

Cafodd Laura gefnogaeth gan elfen Gyrfaol Llwyddo'n Lleol i sicrhau swydd broffesiynol yn lleol. "Mae'r cynllun yn fuddsoddiad mewn pobl ifanc sy'n dangos bod cyfleoedd gwych ar gael yng nghefn gwlad. Dw i wedi cwrdd â phobl ifanc eraill ar y cynllun ac mae wedi bod yn brofiad gwerthfawr yn gymdeithasol ac yn broffesiynol.

"Yn fy ngwaith rwy'n gweld y problemau sy'n cael eu hachosi gan bobl ifanc yn gadael i'r trefi ac effaith hynny ar yr economi, ar gymdeithas ac ar y Gymraeg.

"Mae Llwyddo'n Lleol yn dangos y cyfleoedd sydd ar gael yng nghefn gwlad, dw i wedi cael budd a mwynhad mawr wrth gyfarfod a chydweithio â phobl eraill ar y cynllun."

Y DYFODOL: YN Y SWYDD AC YN Y GYMUNED

Yn ferch fferm o Langwyryfon, mae Laura'n aelod gweithgar o'r clwb ffermwyr Ifanc lleol, sy'n rhoi digon o gyfleoedd iddi gymdeithasu a chyfrannu at ei chymuned leol yn ei hamser sbâr.

"Mae gweithgarwch cymunedol mudiadau fel y ffermwyr Ifanc yn dibynnu'n gyfan gwbl ar alluogi pobl ifanc i aros yng nghefn gwlad, ac mae gan Llwyddo'n Lleol gyfraniad hollbwysig i'w wneud."

Ei nod yw parhau i dyfu yn ei swydd a chefnogi mentrau gwledig. "Mae cymaint o botensial yn y sector amaethyddol – rwy'n edrych ymlaen at weld beth ddaw nesaf."

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government